# MYND I'R AFAEL AG ADDYSU AM HILIAETH

Ceris Sauro, athrawes CPA ac arweinydd dyniaethau yn Ysgol Gynradd Pontyberem

## Hiliaeth yn y cwricwlwm

Gyda chyflwyniad y Cwricwlwm Newydd yng Nghymru, ac un o'r prif dibenion sef magu 'dinasyddion egwyddorol gwybodus,' mae addysgu plant am hil a dathlu ein gwahaniaethau yn allweddol bwysig. Yn ogystal â hyn, mae'r galw i godi ymwybyddiaeth a thynnu sylw'r plant at hiliaeth hefyd yn elfennol os ydym am fagu plant goddefgar, sydd ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r byd aml-grefyddol, aml-seciwlar rydym yn byw ynddi. Gydag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu Cymru wrth-hiliol erbyn 2030, mae pwysau ar addysgwyr i ehangu dealltwriaeth a gwybodaeth ein disgyblion o'r diwylliannau amrywiol sydd yn rhan o'n gorffennol a'n presennol.




Gwrando ar glip fideo y BBC – dymchwel cerflun Colston yn 2020

## Sut i fynd ati i addysgu pwnc mor sensitif?

Gan fod hiliaeth i nifer, yn bwnc weddol anghyfforddus, mae tueddiad i osgoi ei drafod. Yn ogystal, mae diffyg hyder addysgwyr ar sut i fynd ati i gychwyn addysgu hiliaeth, hefyd yn gallu bod yn rhwystr. Roeddwn i'n un o'r athrawon ddi-hyder hyn, ond ym mis Mehefin y llynedd, cefais y cyfle i fynd ar gwrs addysgu Gwrth-hiliaeth Addysg Grefyddol gan Lat Blaylock. Cefais fy ysbrydoli gan y cwrs yma, roedd yn gynhwysfawr a diddorol a rhoddodd nifer o syniadau da a gwahanol ar sut i addysgu, a chael yr hyder i addysgu plant a phobl ifanc am hiliaeth. Mae'r uned o waith a rhannwyd ar y cwrs ar gael ar wefan 'National Association of Teachers of Religious Education (NATRE),[1] ac yn sylfaen dda i ddechrau addysgu plant am hiliaeth a gwrth-hiliaeth. Gyda mis hanes pobl dduon yn digwydd yn flynyddol ym mis Hydref, defnyddiais rhai o'r adnoddau yma wrth gychwyn fy nhaith addysgu am hiliaeth a gwrth-hiliaeth yn yr ystafell ddosbarth.

## Datblygu dealltwriaeth am hiliaeth

I gychwyn ein gwaith ar hiliaeth, trafodwyd y term 'hiliaeth' a 'gwrth-hiliaeth'. Gwrandawodd y plant ar wahanol achosion o hiliaeth. Roedd hyn yn cynnwys rhai achosion ffuglennol gall ddigwydd ym mywyd bob dydd, a rhai achosion go iawn fel hanes George Floyd, Rosa Parks ac Edward Colston y caethfasnachwr o Fryste. Roedd y gweithgaredd yma wedi annog llawer o drafod, yn enwedig wrth geisio trefnu'r esiamplau yn ôl beth oedd y plant yn meddwl oedd yr achosion mwyaf i leiaf difrifol. Cafodd y plant gyfle i rannu a thrafod eu barn a defnyddio empathi wrth drafod yr achosion ac ystyried teimladau'r dioddefwyr. Erbyn diwedd y wers, dengys y plant ddealltwriaeth glir o ystyr y term 'hiliaeth' a 'gwrth-hiliaeth', gyda nifer wedi syfrdanu ar hyn a glywyd.



www.natre.org.uk/about-natre/projects/anti-racist-re/

(Saesneg)

## Defnyddiwyd clip newyddion y BBC o'r ddadl am ddymchwel cerflun Edward Colston ym Mryste yn 2020 i annog y drafodaeth.

### Y ddadl o blaid ac yn erbyn cerfluniau

Er mwyn ehangu ar ddealltwriaeth y plant am hiliaeth, nesaf trafodwyd pwrpas cerfluniau gan edrych yn benodol ar gerflun dau Gristion; John Wesley ac Edward Colston. Defnyddiwyd clip newyddion y BBC o'r ddadl am ddymchwel cerflun Edward Colston ym Mryste yn 2020 i annog y drafodaeth. Trafodon ni'r dadleuon o blaid ac yn erbyn dymchwel cerflun Colston. Hefyd edrychwyd ar esiamplau lleol, megis cerflun Thomas Picton yng Nghaerfyrddin. Aeth y plant ymlaen i greu siart bar dynol yn dangos eu barn am wahanol agweddau o hiliaeth a'u barn nhw am bwysigrwydd ac arwyddocâd cerfluniau yn y byd modern.

### Hanes unigolion allweddol

Roedd y defnydd o lyfrau'r gyfres *Little People Big Dreams* gan yr awdures Maria Isabel Sánchez Vegara, hefyd wedi datblygu dealltwriaeth y plant am ymgyrch unigolion blaenllaw yn y frwydr yn erbyn hiliaeth. Defnyddiwyd y llyfrau yma i gyflwyno hanes unigolion allweddol a'u brwydr yn erbyn hiliaeth, yn syml ar lefel plentyn. Yna, drwy waith ymchwil ar y we, cafodd y plant gyfle i gyflwyno hanes unigolion megis Rosa Parks, Martin Luther King, Gandhi a Nelson Mandela. Defnyddiodd y plant y rhaglen gyfrifiadurol Adobe Creative i gyflwyno'i gwaith ar ffurf clip fideo. Mwynhaodd y plant y cyfle i ymchwilio'r hanes yn annibynnol.

### Siarter gwrth-hiliaeth

I orffen y thema, defnyddiodd y plant yr holl wybodaeth a dysgwyd yn ystod y gwersi i greu siarter gwrth-hiliaeth, lle nodwyd eu haddewidion i greu byd tecach, gwrth hiliol. Gweithiodd y plant fesul pâr wrth feddwl a chynllunio'u siarteri, ac yna defnyddiwyd rhaglen gyfrifiadurol Adobe Creative i greu poster yn arddangos eu gwaith. Dyma esiampl o waith un plentyn ble nodwyd 'Byddwn yn trin eraill fel rydyn ni eisiau cael ein trin.' ac 'Ni fyddwn yn trin ein gilydd gyda thrais neu amarch.' Roedd sylwadau a syniadau'r plant wrth grynhoi'r thema yn dangos eu haeddfedrwydd a sensetifrwydd wrth drafod hiliaeth a gwrth-hiliaeth.

Rhoddodd yr adnoddau yma'r sylfaen dda imi fynd ati ac addysgu a thrafod materion sensitif yn ymwneud â hiliaeth yn yr ystafell dosbarth. Datblygodd y plant nifer o sgiliau allweddol wrth ymgymryd y sesiynau megis empathi, caredigrwydd, goddefgarwch a chynhwysiad. Ond yn bennaf, nodwyd platfform i leisio barn a rhannu gwybodaeth i adnabod bod pobl wedi, a dal yn cael eu trin yn wahanol ar sail hil a sut mae pobl yn medru sefyll yn erbyn rhagfarn. Gobeithiaf fydd codi ymwybyddiaeth hiliaeth i blant oedran cynradd yn rhywbeth fydd yn digwydd yn fy ngwersi yn flynyddol. ■

### Ein Siarter Gwrth-Hiliaeth

1. Byddwn yn trin eraill fel rydyn ni eisiau cael ein trin.
2. Ni fyddwn yn arfanu ar sut mae pobl eraill yn edrych, neu beth maent yn credu.
3. Ni fyddwn yn trin ein gilydd gyda thrais neu amarch.
4. Byddwn yn garedig i bawb ac ni fyddwn yn ystradebu.



▲ Trefnu enghreifftiau o hiliaeth yn ôl difrifoldeb




◀ Enghraifft o waith plentyn – creu siarter gwrth-hiliaeth ar Adobe Creative

NODIADAU

1 www.natre.org.uk/about-natre/projects/anti-racist-re/ (Saesneg)